



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus - Rhanbarth Gorllewin Cymru**

**Mirus Cymru  
Uned 5 Cleeve House  
Lambourne Crescent  
Caerdydd  
CF14 5GP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

**05, 06, 11 & 13/04/2022**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

*Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus - Rhanbarth Gorllewin Cymru

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr cofrestredig	Mirus Wales
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	05/09/2019
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymreig.

## Crynodeb

Mae Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus (Gorllewin Cymru) yn wasanaethau cymorth cartref sy'n darparu gofal i oedolion a phlant ag anableddau, gan gynnwys anableddau corfforol a dysgu. Mae Mirus yn darparu gwasanaethau yn unol ag ôl troed bwrdd iechyd rhanbarthol Gorllewin Cymru ac yn darparu gofal i'r bobl yn eu cartrefi eu hunain gan gynnwys gwasanaethau byw â chymorth, lle mae'r bobl yn cael gofal 24 awr yn eu cartrefi eu hunain.

Rhoddir y bobl wrth galon y gwasanaeth ac maent yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd uchel iawn gan dîm o staff proffesiynol ond gofalgar. Mae'r bobl yn cael cymorth ac anogaeth i fyw bywydau egnïol a gwneud dewisiadau dyddiol. Mae'r staff yn trin y bobl gydag urddas a charedigrwydd, ac mae perthnasau'n teimlo'n sicr bod y gofal a ddarparwyd o safon uchel iawn. Mae cynlluniau personol yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd orau iddynt.

Mae gan y gwasanaeth drefniadau llywodraethu effeithiol iawn ar waith. Rheolir y gwasanaeth yn dda iawn gan dîm rheoli profiadol. Mae llinellau cyfathrebu clir ac eang o fewn y sefydliad ac yn allanol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn rheoli eu bywydau o ddydd i ddydd ac yn cael gofal a chymorth o safon uchel gan wasanaeth lle mae'r staff yn ofalgar. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r bobl. Maent yn gynhwysol ac yn darparu canllawiau clir i weithwyr gofal eu dilyn. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda iawn, gan ddangos parch, caredigrwydd a phroffesiynoldeb trwy gydol yr arolygiad. Mae'r gweithwyr gofal yn cyfathrebu â phobl gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys yn y Gymraeg. Mae'r staff gofal yn cynnwys y bobl a/neu berthnasau mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a pha mor dda y caiff ei reoli. Teimlant y gwrandewir arnynt a chymerir unrhyw bryderon o ddifrif.

Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg llym yn lleihau risg ac yn hyrwyddo annibyniaeth pobl tra'n eu cadw'n ddiogel. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd mewn partneriaeth â'r bobl, aelodau'r teulu, eiriolwyr a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol. Maent hefyd yn darparu'r wybodaeth berthnasol i weithwyr gofal i helpu cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i fyw bywydau cyflawn gan wneud y pethau maent yn mwynhau eu gwneud, wrth gydnabod y risgiau. Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda mewn gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban, a gefnogir gan bolisiau a gweithdrefnau cyfredol. Mae'r staff gofal yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau a sut i adrodd am unrhyw bryderon. Mae systemau rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ar waith.

Mae iechyd corfforol a llesiant emosiynol y bobl yn cael eu hybu a'u monitro'n weithredol. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda iawn a'r ffordd orau i'w cefnogi. Mae'r staff gofal yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol i gadw'r bobl mor iach ag y gallant fod. Mae gan y staff fynediad at hyfforddiant arbenigol ar ystod o gyflyrau iechyd.

Mae'r gwasanaeth yn agored, yn hygyrch ac yn cyfathrebu'n dda â pherthnasau ac eiriolwyr gan sicrhau bod y cymorth cywir ar waith. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal cydberthnasau sy'n bwysig iddynt ac i deimlo'n rhan o'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael gwasanaeth o safon uchel iawn. Mae'r tîm uwch-reolwyr yn cyfathrebu'n effeithiol iawn â'r bobl, staff, perthnasau a rhanddeiliaid eraill. Mae trefniadau cyson ar waith i gefnogi'r staff trwy oruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd. Mae proses sefydlu a reolir yn dda a mynediad at ystod o gyfleoedd datblygu yn hyrwyddo ymrwymiad cryf i'r sefydliad a'i werthoedd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae ganddo drefniadau monitro o ansawdd uchel ar waith.



## Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn hyderus bod eu cydberthnasau â ffrindiau a theulu yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo. Drwy gydol y cyfyngiadau symud mae'r gwasanaeth wedi bod yn arloesol wrth ddatblygu ffyrdd o gynnal sianeli cyfathrebu da gyda theulu a ffrindiau. Dywedodd perthnasau eu bod yn gwerthfawrogi ymdrechion y staff i liniaru gofid a hyrwyddo llesiant emosiynol y bobl. Roedd sylwadau yn cynnwys "*mae gennym ni gyfathrebu da gyda'r gwasanaeth, yn enwedig y rheolwr ardal*". Defnyddiwyd ystod o dechnoleg hefyd i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd. Mae gwaith hyrwyddo a chynnal cyfeillgarwch rhwng y bobl a gefnogir gan y gwasanaeth yn parhau. Trefnir digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd, yn ogystal â chysylltiadau cryf â'r cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â grwpiau gan gynnwys "paws and pals" a chlybiau porth.

Anogir y bobl yn gadarnhaol i ymgysylltu â gweithgareddau ystyrllon a datblygu sgiliau ar gyfer annibyniaeth. Mae gan y bobl berthynas dda gyda'r staff sy'n dangos cynhesrwydd, caredigrwydd a thosturi. Roedd pob aelod o'r staff yn dangos ymrwymiad i alluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosib. Gwelsom y bobl yn cael mynd i'r gegin i wneud cinio a diodydd i eraill. Wrth ddarllen ffeiliau gofal y bobl, gwelsom eu bod yn manylu'n glir ar ddyfodol, nodau a dyheadau'r bobl. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i fynd ar wyliau, profiad gwaith a chymryd rhan mewn hobiau a diddordebau o'u dewis. Mae cynlluniau personol yn rhoi gwybodaeth i'r staff gyda chanllawiau clir ar sut i gefnogi'r bobl ar feysydd o'u dewis. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn "*hapus iawn*" ac yn gallu dilyn y pethau maent yn angerddol amdanynt. Mae'n amlwg bod y bobl yn teimlo eu bod yn aelodau gwerthfawr o'u cymuned ac yn cyfrannu at y gymdeithas ehangach.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae asesiadau risg manwl yn lleihau'r risg o niwed ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r holl staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu ac maent yn ymwybodol o sut i godi pryderon. Maent yn ymwybodol o gais Diogelu Cymru Gyfan. Dangosodd trafodaethau gyda'r rheolwr ardal ddealltwriaeth gynhwysfawr o ddiogelu, ffiniau a hyder wrth gyflwyno hyfforddiant ymarferol yn y maes hwn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cael eu cefnogi gan y staff.

Mae gan y bobl lais a rheolaeth dros eu bywydau a chânt eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae dogfennau cynllunio personol yn glir ac yn adlewyrchu'n gywir y ffordd orau o gefnogi'r bobl. Mae cynlluniau personol yn gynhwysol ac yn cael eu hategu gan ddogfennau fel proffiliau un dudalen, cylchoedd perthynas, cyfathrebu a phroffiliau diwrnodau da – diwrnodau gwael. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus bod ganddynt ddewis o ran sut i dreulio eu hamser. Dywedon nhw hefyd fod yna sgysiau dwy ffordd dda am hyrwyddo annibyniaeth. Gwelsom gyfathrebu a chynghor da yn cael ei geisio wrth weithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant arbenigol ar ystod o gyflyrau iechyd. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o awgrymiadau dieiriau fel dangosyddion salwch. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau iechyd. Mae'r

staff yn rhoi meddyginiaeth yn ddiogel, wedi'u hyfforddi'n dda yn unol â'u polisi ac yn cwblhau cofnodion mewn modd amserol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan Mirus Western Bay nod clir o "alluogi pobl i fyw bywydau cyflawn a gwerthfawr". Roedd gwerthoedd y gwasanaeth o rymuso, dewrder, bod ynghyd, parchu a chyfrifoldeb i'w gweld trwy gydol yr arolygiad. Mae'r gwerthoedd hyn a arweinir gan uwch aelodau o staff yn cael eu deall yn glir a'u harddangos gan y staff ym mhob achos o ryngweithio â phobl a gyda'i gilydd. Mae sgysiau gyda'r gweithwyr gofal yn dangos eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac agwedd rymusol at sut mae'r staff yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau unigol.

Mae tîm rheoli profiadol yn cefnogi ac yn datblygu staff i gyrraedd eu llawn botensial yn gyson. Teimla'r staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr, wrth eu cymharu'n ffafriol iawn â chyflogwyr blaenorol. Gallant nodi cryfderau a gwendidau trwy gyswllt rheolaidd ac mewn cyfarfodydd goruchwyllo ac arfarnu mwy ffurfiol. Mae'r gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ynghylch anghenion unigol y bobl yn ogystal â hyfforddiant a chymorth mewn meysydd yr hoffai'r staff eu datblygu. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo'n werthfawr a'u bod nhw yn cael eu gwerthfawrogi, roeddynt yn teimlo bod y tîm rheoli yn "hyblyg", "teg" ac "yn hawdd mynd atynt." Dywedodd y staff wrthym "*Dyma'r sefydliad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fwyaf i mi weithio iddo*" a "*maen nhw'n awyddus iawn i'n datblygu ni yn ein gyrfaoedd*". Mae gan y gwasanaeth raglenni datblygu rheolwyr a chyflawnwyd llwyddiant mawr wrth ddatblygu rheolwyr yn fewnol. Mae'r tîm cryf o staff wedi cefnogi ei gilydd trwy gyfnodau anodd trwy gydol y pandemig oherwydd prinder staff a chyfyngiadau symud. Mae hyn yn cael ei reoli'n dda gyda rheolwyr yn parhau i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r bobl ac i'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r rhaglen llesiant gweithwyr a'u bod yn defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod ei staff yn cael eu fetio'n briodol a'u bod yn ddiogel i ddarparu gofal a chymorth i bobl sy'n agored i niwed. Mae yna weithdrefnau sefydlu staff cryf iawn gan gynnwys cefnogi'r gweithwyr gofal gyda'u cofrestriad proffesiynol. Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan broses recriwtio a fetio trylwyr. Mae'r gwasanaeth yn elwa o dîm adnoddau dynol canolog. Mae hyn yn sicrhau bod y dogfennau sy'n ymwneud â'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth mewn trefn a'u bod yn bodloni gofynion rheoliadol.

Mae trefniadau monitro ansawdd cynhwysfawr yn dangos goruchwyliaeth dda o berfformiad y gwasanaeth. Ceir diwylliant cadarnhaol a chaiff cymorth y bobl ei fonitro'n rheolaidd i wella eu canlyniadau a chyflawni eu dyheadau. Mae tystiolaeth dda a chyson o ymgysylltiad yr unigolion cyfrifol ag unigolion, perthnasau, gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â gwasanaethau ac roedd yn adnabyddus iawn i'r staff. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn weithredol wrth ymweld â gwasanaethau'n rheolaidd. Mae trefniadau monitro ansawdd a gwelliant parhaus

cadarn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn parhau i ddatblygu.



### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe gafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

### Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

**Dyddiad cyhoeddi 23/06/2022**